NEWPORT CITY COUNCIL

Statutory Notice – School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

Sarah Morgan, Chief Education Officer
Newport City Council, Civic Centre
Newport, NP20 4UR

Notice is given in accordance with section 41 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Newport City Council, having consulted such persons as required, proposes to establish a new English-medium community-maintained primary school at Bessemer Drive, Newport, NP19 4EB for boys and girls aged 3-11.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report, containing a summary of the issues raised by consultees and the proposer's response and the views of Estyn is available on the Newport City Council website at http://www.newport.gov.uk/en/Schools-Education/School-reorganisation/Glan-Llyn-school.aspx

The new primary school will have a published admission number of 60, and eventual capacity for 420 pupils of statutory school age. In addition there will be a nursery class with capacity for 48 part-time places, delivered over either a morning or afternoon session, and two separate 10-place generic Learning Resource Bases to support Foundation Phase and Key Stage Two pupils with Additional Learning Needs whose needs cannot be met solely within mainstream education.

It is proposed to implement the proposal on 1st September 2019 under a growing school model as follows:

- Year 1 – On 1st September 2019 the school will be established with a published admission number of 30 for the Reception year group and a published admission number of 15 for the Year One to Year Six groups.
- Year 2 – From 1st September 2020, the published admission number will increase to 30 across all year groups.
- Year 3 – From 1st September 2021, the published admission number will increase to 60 for the Reception year group and to 45 for the Year One to Year Six groups.
- Year 4 – From 1st September 2022, the agreed published admission number of 60 will be realised across all year groups.

There will be provision for 24 full-time equivalent nursery pupils from September 2019. The two Learning Resource Base classes will also be fully operational from this date.

The proposed new school will be a maintained by Newport City Council and therefore the Council will be the admission authority. It is not proposed that the admission arrangements will make any provision for selection by aptitude or ability. Parents of children who are admitted for nursery education will still need to apply for a place at the school if they want their child to transfer to a Reception class.

The Council has a Home to School Transport policy and provides free transport to eligible pupils of statutory school age. This provision will not be affected by this proposal. Further information in relation to this policy is available on the Council website.

Objection Period

Within a period of 28 days after the date of the publication of these proposals, that is to say by 28 March 2018, any persons may object in writing or by email to the proposals. Objections should be sent to Newport City Council, for the attention of the Education Service Development Manager, Room 425w, Civic Centre, Newport, NP20 4UR. Objections by email should be sent to school.reorg@newport.gov.uk The Council will publish a summary of any such objections made (and not withdrawn in writing) within the objection period, together with their observations thereon, at the time of notification to stakeholders of the determination of the proposal.

Dated: 28 February 2018

Sarah Morgan, Chief Education Officer,
for Newport City Council, Civic Centre, Newport, NP20 4UR

CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Hysbysiad Statudol – Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd NP20, 4UR

Hysbysir yn unol ag adran 41 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas Casnewydd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n ofynnol, yn cynnig y dylid sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd a gynhelir gan y gymuned yn Bessemer Drive, Casnewydd, NP19 4EB ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/Glan-Llyn-school.aspx

Nifer derbyn gyhoeddedig yr ysgol gynradd newydd fydd 60, a bydd lle yn y pen draw i 420 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol. Hefyd, bydd dosbarth meithrin â lle i 48 o blant ar sail ran-amser, naill ai mewn sesiwn fore neu sesiwn brynhawn, a dwy Ganolfan Adnoddau Dysgu gyffredinol ar wahân gyda 10 lle i gefnogi disgyblion Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ag Anghenion Dysgu Ychwanegol na ellir diwallu eu hanghenion drwy addysg prif ffrwd yn unig.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2019 o dan fodel ysgol sy'n tyfu fel a ganlyn:

- Blwyddyn 1 – Ar 1 Medi 2019 caiff yr ysgol ei sefydlu gyda nifer derbyn gyhoeddedig o 30 ar gyfer y grŵp blwyddyn Derbyn a nifer derbyn gyhoeddedig o 15 ar gyfer grwpiau Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6.
- Blwyddyn 2 – O 1 Medi 2020, bydd y nifer derbyn gyhoeddedig yn cynyddu i 30 ar gyfer pob grŵp blwyddyn.
- Blwyddyn 3 – O 1 Medi 2021, bydd y nifer derbyn gyhoeddedig yn cynyddu i 60 ar gyfer y grŵp blwyddyn Derbyn a 45 ar gyfer grwpiau Blwyddyn 1 i Flwyddyn 6.
- Blwyddyn 4 – O 1 Medi 2022, caiff y nifer derbyn gyhoeddedig o 60 ei gwireddu ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Bydd darpariaeth ar gyfer 24 o ddisgyblion meithrin cyfwerth ag amser llawn o fis Medi 2019 ymlaen. Bydd y ddau ddosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu hefyd yn gwbl weithredol o'r dyddiad hwn ymlaen.

Caiff yr ysgol newydd arfaethedig ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ac, felly, y Cyngor fydd yr awdurdod derbyn. Ni chynigir y bydd y trefniadau derbyn yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl dawn na gallu. Bydd angen i rieni plant sy'n cael eu derbyn i addysg feithrin wneud cais am le yn yr ysgol o hyd os ydynt am i'w plentyn drosglwyddo i ddosbarth Derbyn.

Mae gan y Cyngor bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ac mae'n darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys o oedran ysgol statudol. Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar y ddarpariaeth hon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r polisi hwn ar wefan y Cyngor.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 28 Mawrth 2018, gall unrhyw bersonau wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy e-bost. Dylid anfon gwrthwynebiadau i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylai unrhyw wrthwynebiadau a wneir drwy e-bost gael eu hanfon i school.reorg@newport.gov.uk. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw gyfryw wrthwynebiadau a wneir (ac na chânt eu tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd a'i sylwadau arnynt, ar yr adeg yr hysbysir rhanddeiliaid o'r penderfyniad ar y cynnig.

Dyddiedig: 28 Chwefror 2018

Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg,
ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR